

CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

GWASANAETH GLANHAU

YSGOLION CYNRADD AC ARBENNIG

1. **Enw'r Gwasanaeth**

Gwasanaeth Glanhau

2. **Enw/Lleoliad Rheolwr y Gwasanaeth**

Alison Cosker, Rheolwr Cyfleusterau Arlwyo/Glanhau
Canolfan Ddinesig
Rhif Ffôn: [07976529503](tel:07976529503)
E-bost: Alison.Cosker@abertawe.gov.uk

Julie Archer, Dirprwy Reolwr Cyfleusterau Arlwyo/Glanhau
Canolfan Ddinesig
Rhif Ffôn: [07900702738](tel:07900702738)
E-bost: Julie.Archer@abertawe.gov.uk

3. **Crynodeb o'r Gwasanaethau a Ddarperir**

Darperir y gwasanaeth gan Gyfleusterau Arlwyo/Glanhau Cyngor Abertawe. Y cyswllt beunyddiol yw Julie Archer a Mark Laven sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y safle a chyswllt â chwsmeriaid. Bydd cyswllt yn cynnwys ymweliadau â safleoedd pan fydd hynny'n ofynnol a gellir cysylltu trwy e-bost a dros y ffôn.

4. **Dulliau Dyrannu a Chodi Tâl**

Mae'r tâl a godir ar Ysgolion yr un faint â'r swm a ddirprwyir i bob ysgol. Nodwch y bydd cost ychwanegol am lanhau y tu allan i'r oriau hyn. Cyn 6yb ac wedi 7yh a gwaith ar benwythnos – dyfynnir y gost ar gais. Mae diwrnodau HMS yn ddiwrnodau pan na fydd yr ysgolion yn cael eu glanhau, ond os oes cais wedi'i wneud am lanhau ychwanegol, cysylltwch â ni 48 awr cyn y dyddiad.

5. **Y Gwasanaeth a Ddarperir**

Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn wasanaeth Glanhau Allbwn. Yn ôl y diffiniad o gontract allbwn, *“bydd y contractwr yn defnyddio ei arbenigedd ei hun i gyflawni'r safon ofynnol o fewn amserlen benodol.”* Caiff y gwasanaeth ei fonitro yn rheolaidd, ei adolygu, ei wella a'i ddatblygu gan roi sylw i ofynion y cwsmer.

Cyfrifoldebau'r Darparwr Gwasanaeth

- Cyfrifoldeb am recriwtio a rheoli staff glanhau.
- Bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant 'mewnol'.
- Caiff yr holl asesiadau COSHH a'r asesiadau o risgiau eu llunio a'u darparu gan y gwasanaeth glanhau.
- Bydd yr holl staff a gaiff eu recriwtio yn cael gwiriad GDG dilys gan Gyngor Abertawe.
- Bydd staff yn cael eu hysbysu trwy e-bost am y gymeradwyaeth, yn cynnwys rhif a dyddiad y dystysgrif ar gais.
- Caiff y gwasanaeth ei fonitro'n rheolaidd a rhoddir adborth i'r cwsmer os gofynnir am hynny.
- Darparu deunyddiau glanhau.
- Bydd y gwasanaeth yn darparu deng niwrnod o lanhau dwys, sef yn ystod hanner tymor mis Chwefror ac wythnos olaf gwyliau mis Awst.
- Os bydd cwsmer yn gofyn am sgwrio ardal yn lân oherwydd gollyngiad hylif corfforol, cysylltwch â Julie Archer neu Mark Laven drwy e-bost.

Gwasanaeth Craidd

Darparu Contract Glanhau Allbwn Safonol yn ystod y flwyddyn ysgol:- NI FYDD glanhau ar ddiwrnodau HMS. 2 wythnos o lanhau dwys (10 niwrnod) fel y nodir uchod.

I hwyluso'r safon uchod, ceir disgwyliad y bydd yr ysgol yn cynorthwyo â'r broses lanhau drwy:-

- Godi eitemau rhydd sydd ar loriau ystafelloedd dosbarth h.y. pinnau/rwberi etc.
- Sicrhau nad oes llyfrau/cyfarpar ar fyrddau ystafelloedd dosbarth
- Clirio siliau ffenestri
- Clirio desgiau swyddfeydd

Fe wnaiff hyn ganiatáu i lanhawyr gael mwy o 'amser glanhau' i gyflawni'r safon benodol.

Gwasanaethau Ychwanegol

Codir tâl priodol trwy gytundeb â'r cwsmer am unrhyw ofynion sy'n ychwanegol i'r contract glanhau allbwn.

Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael:-

- Siampŵ Carped
- Lloriau Pren
- Ystafell staff yn ystod y diwrnodau glanhau dwys - tu mewn i gypyrddau/oergelloedd/ffyrnau microdon
 - Glanhau pwrpasol ar gais gan yr ysgol

Buddion y CLG

- Bydd rheolwyr y gwasanaeth yn trefnu staff i gyflenwi pan fydd glanhawyr yn sâl lle y bo'n bosib. Gallai hyn gael ei wneud gan aelod arall o staff/glanhawyr symudol neu gellid rhoi oriau

goramser ychwanegol i staff sy'n gweithio ar y safle (heb godi tâl am hynny ar yr ysgol).

- Aseidiadau Iechyd a Diogelwch, e.e. aseidiadau COSHH, trafod â llaw a risgiau yn cael eu gwneud gan dîm rheoli'r gwasanaeth glanhau.
- Monitro'r gwasanaeth gan sicrhau y caiff unrhyw anawsterau eu datrys.
- Recriwtio/cyfweld â/cyflogi staff, cwblhau pob dogfen a chynnal gwiriadau cyfnod prawf.
- Bydd y tîm rheoli yn ymdrin â materion staffio.
- Gwiriad DBS ar gyfer bob aelod o staff a gyflogir.
- Hyfforddiant – caiff pob aelod o staff hyfforddiant a'r diweddaraf ar y dulliau glanhau cyfredol

Glanhau Peiriannau

Fel y gwyddoch, mae cynnal a chadw peiriannau yn cael ei gwmpasu gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth arall, ac os nad yw ysgolion am fod yn rhan o'r CLG hwn, cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod y cyfarpar yn addas at y pwrpas/a bod ganddo ddyddiad profi PAT cyfredol neu ni all ein staff ddefnyddio'r cyfarpar. Sylwer, os nad yw'r cyfarpar cywir ar gael, ni fydd y glanhawyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau glanhau craidd. Mae'r Cyfleusterau Arlwyio a Glanhau yn gyfrifol am ddarparu glanhawyr i lanhau'r ysgol yn unig.

Canlyniadau cyffredinol peidio â phrynu gwasanaeth yn ôl

Os yw ysgolion yn dewis peidio ag ymgymryd â chontract glanhau ac yna'n dymuno ymgymryd ag ef eto yn y dyfodol, rhaid iddynt hysbysu'r Rheolwr CLG yn ysgrifenedig (ac e-bostio kelly.smaill@abertawe.gov.uk) erbyn diwedd Tymor yr Hydref fan bellaf a chyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn dymuno i'r CLG gychwyn arni, er mwyn caniatáu i'r Rheolwr CLG ystyried a yw'r cynnig yn fasnachol ddichonadwy ac i ystyriaethau fel TUPE gael eu rhoi ar waith.

Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i ysgolion yn ddidrafferth, ond rydym yn cydnabod na fydd hynny'n digwydd ar brydiau. Mae gennym weithdrefn dau gam yn ei lle i ddatrys a mynd i'r afael ag achosion o'r fath. Rydym yn croesawu adborth cadarnhaol a negyddol, ac os oes gennych chi sylwadau neu bryderon am wasanaeth penodol, gofynnwn i chi ddilyn y gweithdrefnau dilynol:

Cam 1:

Os oes gennych bryder am wasanaeth, neu os hoffech ddwyn sylw at nodwedd gadarnhaol, llenwch y ffurflen sylwadau sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen CLG ar Staffnet:-

<http://www.swansea.gov.uk/staffnet/educationslacommentform>. Yna, caiff y ffurflen ei hanfon at reolwr priodol y CLG a Kelly Small, Pennaeth yr Tîm Cyllid a Gwybodaeth.

Cam 2:

Os na fyddwch chi'n fodlon â'r modd y cafodd eich pryder ei ddatrys, llenwch y ffurflen gwyno sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen uchod, ac yna caiff y ffurflen ei hanfon at Reolwr priodol y CLG ac at Brian Roles, Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg.

Contract Glanhau Allbwn Safonol

<u>Dyddiol</u>	<u>Wythnosol</u>	<u>Glanhau Dwys Chwefror/Awst</u>
<p><u>Biniau</u> – (yn cynnwys ailgylchu) cânt eu cludo i fan casglu penodedig</p> <p><u>Carpedi</u>- cânt eu hwfro</p> <p><u>Cyflenwad Dŵr Yfed</u> <i>gwrthfactoria/sychu</i></p> <p><u>Handlenni Drysau</u> – <i>gwrthfactoria/sychu</i></p> <p><u>Lloriau – (Dosbarth)</u> <i>Altro</i> – brwsio/mopio pob dosbarth (caiff dosbarthiadau eu mopio'n llawn mewn trefn gylchdro) <i>Finyl</i> – brwsio/mopio pob dosbarth (caiff dosbarthiadau eu mopio'n llawn mewn trefn gylchdro) <i>Pren</i> – brwsio/mopio pob dosbarth (caiff dosbarthiadau eu mopio'n llawn mewn trefn gylchdro)</p> <p><u>Lloriau – (Coridorau)</u> <i>Altro</i> – brwsio/mopio yn ôl yr angen <i>Finyl</i> - brwsio/mopio/bwffio yn ôl yr angen</p> <p><u>Lloriau - (Neuaddau)</u> <i>Finyl</i> – brwsio/mopio manau penodol <i>Pren</i> – brwsio/mopio manau penodol</p> <p><u>Olion dwylo</u> – cânt eu sychu</p> <p><u>Sinciau</u> – (Nid mewn</p>	<p><u>Cyfrifiaduron</u> (ac eithrio sgriniau) Tynnu llwch gan ddefnyddio brwsh gwrthstatig</p> <p><u>Llawr Coridorau</u> <i>Finyl</i> - mopio</p> <p><u>Llawr Neuadd</u> <i>(Finyl)</i> – mopio</p> <p>(Pren) – Bwffio unwaith bob wythnos</p> <p><u>Dodrefn</u> – yn cynnwys swyddfeydd ac ystafelloedd staff</p> <p><u>Ffonau</u></p> <p><u>Toiled</u> – golchir pibellau a theils o amgylch y sinc gan ddefnyddio cemegau priodol</p> <p><u>Siliau ffenestri</u> – (os yn glir) sychu'n lân</p> <p><u>Glanhau ar lefel uchel</u> hyd at 2.4m – gan ddefnyddio offer glanhau ar lefel uchel</p>	<p><u>Fframiau Drysau a Byrddau Sgyrtin</u></p> <p><u>Llawr Altro</u> – sgwrio – manau a dargedir</p> <p><u>Llawr finyl dosbarthiadau/coridorau</u> Glanhau dwys</p> <p><u>Llawr Finyl y Neuadd</u> – Glanhau dwys</p> <p><u>Llawr Pren</u> brwsio/mopio/llathru relái - manau a dargedir</p> <p><u>Panelau Gwydr Mewnol</u>– targedu manau penodol (O safle sefyll hyd at uchder dwylo)</p> <p><u>Glanhau ar lefel uchel</u> hyd at 2.4m – gan ddefnyddio offer glanhau ar lefel uchel</p> <p><u>Cynheiliaid/ymylon grisiau</u> – golchi/sgwrio ble mae angen</p> <p><u>Toiledau</u> – glanhau'r toiled yn ddwys/sgwrio llawr Altro</p> <p><u>Walïau</u> – golchi ble mae angen gwneud hynny</p>

<p>toiledau) Golchi â dŵr poeth/glanedydd</p> <p><u>Topiau byrddau – gwrthfactoria/sychu</u></p> <p><u>Toilets</u> – powliau toiled, wrinalau, sinciau, llawr, powliau, tapiau, sychwr dwylo a drychau – glanhau â chadachau wedi'u codio yn ôl lliw/cemegyn</p> <p><u>Cawod/ystafelloedd sy'n dal dŵr</u> Glanhau yn yr un modd â thoiledau</p>		
---	--	--